

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Sarah Beasley
Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2019	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.15	Seneddlechyd@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (9.15–9.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 Gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynt gwaith dilynol: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol**
(09.30–11.30) (Tudalennau 1 – 20)

Mick Giannasi, Cadeirydd, Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol
Cath Broderick, Aelod panel lleig, Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol

Briff Ymchwil
Papur 1 – Panel Goruchwylio Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol
- 3 Papurau i'w nodi**
(11.30)
 - 3.1 Llythrau gan Brif Weithredwr Interim Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**
(Tudalennau 21 – 32)



3.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020–21

(Tudalennau 33 – 40)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.30)

5 Gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynt gwaith dilynol: Trafod y dystiolaeth

(11.30–11.40)

6 Gwasanaethau nyrsio cymunedol a nyrsio ardal: Trafod yr adroddiad drafft (2)

(11.40–12.00)

(Tudalennau 41 – 82)

Papur 5 – Gwasanaethau nyrsio cymunedol a nyrsio ardal: adroddiad drafft (2)

7 Blaenraglen Waith

(12.00–12.20)

(Tudalennau 83 – 96)

Papur 6 – Blaenraglen Waith

8 Goblygiadau Brexit: fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

(12.20–12.30)

(Tudalennau 97 – 108)

Papur 7 – Goblygiadau Brexit: fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mick Giannasi
Cadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
Chair of the Independent Maternity Services Oversight Panel

Eich cyf/Your ref **IMSOP-SE-003-19**
Ein cyf/Our ref **IMSOP-SE/003/19**

Dr Dai Lloyd AC,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA

04 Gorffennaf 2019

Annwyl Dr Lloyd,

Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Diolch am eich llythyr diweddar ynglŷn â fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn fuan i drafod gwaith y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Gallaf gadarnhau y bydd fy nghyd-aelod ar y Panel, Cath Broderick, hefyd yn bresennol, ac y bydd yn gallu briffio'r Pwyllgor yn benodol am y gwaith y mae hi'n ei wneud i alluogi'r Bwrdd Iechyd i feithrin cysylltiadau â'r menywod a'r teuluoedd sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan y methiannau a nodwyd yn y gwasanaeth.

Yn Atodiad A, rwyf wedi amgáu'r ymatebion i'r meysydd yr ydych wedi tynnu sylw atynt yn benodol yn eich adroddiad fel rhai sydd o ddiddordeb i Aelodau'r Pwyllgor. Rwy'n gobeithio bod hyn o gymorth, a hyderaf fod yr wybodaeth i raddau helaeth yn hunanesboniadol.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod chi a'ch cyd-aelodau ar y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2019. Erbyn hynny, bydd diweddariad misol cyntaf y Panel ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau a byddaf mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
oversightpanel.maternity@gov.wales
paneltrosolwg.mamolaeth@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



Mick Giannasi
Cadeirydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
oversightpanel.maternity@gov.wales
paneltrosolwg.mamolaeth@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Ymateb i Feysydd Penodol o Ddiddordeb a Godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor

Maes Diddordeb	Ymateb
<p>Faint o wybodaeth oedd gan aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr am y materion a nodwyd yn adroddiad y Coleg Brenhinol.</p>	<p>Mae'n bwysig pwysleisio bod pum elfen yn ymyriadau'r Gweinidog ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n cael eu cydlynu gan uwch swyddog Llywodraeth Cymru. Mae rhoi'r gwasanaethau mamolaeth mewn mesurau arbennig a phenodi Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth yn un o'r pum elfen hynny.</p> <p>Er bod y pum elfen yn ategu'i gilydd a'u bod, yn ymarferol, yn cael eu gwneud mewn ffordd integredig, mae prif ffocws pob un ohonynt yn wahanol. Rôl y Panel Trosolwg Annibynnol, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl, yw sicrhau'n bennaf bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r gwelliannau yn niogelwch cleifion, ac ansawdd a phrofiad cleifion. Nodwyd yn Adroddiad y Coleg Brenhinol ac mewn adolygiadau cysylltiedig eraill fod y gwelliannau hynny yn angenrheidiol.</p> <p>Edrych tua'r dyfodol y bydd y Panel yn bennaf er, yn ymarferol, bydd rhyw elfen o edrych yn ôl er mwyn deall yr hyn sydd wrth wraidd y methiannau sydd wedi'u nodi, ar ben y gwaith penodol ar adolygiadau clinigol annibynnol ôl-weithredol sy'n rhan o gylch gwaith y Panel. O'r herwydd, ni fydd y Panel yn gwneud unrhyw waith ymchwilio penodol i weld pa unigolion, grwpiau neu dimau sydd ar fai am y methiannau sydd wedi'u nodi. Nid ymchwiliad nac archwiliad yw hyn yn y bôn, ond dull i wella perfformiad.</p> <p><i>Bydd yr adolygiad clinigol annibynnol sy'n rhan o waith y Panel yn golygu edrych yn ôl ar achosion difrifol ac y gall hynny, o ganlyniad i'r broses, arwain at gyfeirio'r materion at gyrff allanol (e.e. cyrff proffesiynol, crwner Ei Mawrhydi ayb) er mwyn iddynt ystyried camau pellach. Ond, bydd hyd yn oed yr elfen honno, yn unol â chylch gorchwyl y Panel, yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac y gweithredir arnynt fel ffordd o ysgogi gwelliannau yn niogelwch cleifion, ac ansawdd a phrofiad cleifion.</i></p> <p>Yn rhinwedd ei gylch gorchwyl, mae'r Panel yn gyfrifol am gyfeirio unrhyw bryderon pellach ynghylch arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol at y Bwrdd Iechyd a/neu Lywodraeth Cymru fel sy'n briodol, er eto, nid hynny yw prif ffocws y Panel.</p>

	<p>Mae'r Panel yn canolbwyntio ar elfennau eraill y broses ymyrryd, sef, y gwaith mae David Jenkins yn ei wneud i gefnogi'r Cadeirydd a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau gwelliannau mewn arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol, y gwaith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran statws ymyriad penodol y Bwrdd Iechyd a'r gwaith rheoleiddiol sy'n cael ei wneud gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.</p> <p>Mae'r Panel wedi cael gwybod bod Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, ar ôl ymgynghori â David Jenkins a Llywodraeth Cymru, wedi comisiynu adolygiad allanol annibynnol ar ymdrin â'r adroddiad a gafodd ei lunio ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn 2018 gan y Fydwaig Ymgynghorol ar secondiad. Mae'n bosib y bydd yr adolygiad hwnnw, maes o law, yn cynnig rhai o'r atebion y mae Aelodau'r Pwyllgor yn chwilio amdanynt ynghylch pwy oedd yn gwybod beth, pryd ac ym mha gyd-destun. Ond, nid yw hyn o fewn cylch gwaith y Panel yn llwyr ac, o'r herwydd, ni fyddai'n briodol rhoi sylwadau pellach yn yr ymateb hwn.</p>
<p>Amserlen ar gyfer gwaith y Panel.</p>	<p>Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib nodi'n bendant beth fydd yr amserlen ar gyfer cwblhau gwaith y Panel. Mae hyn yn dibynnu ar sawl ffactor, ac mae gwaith yn digwydd ar rai ohonynt ar hyn o bryd, yn bennaf oll, y flaenoriaeth a'r amserlennu manwl yng Nghynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â chwmpas ac amserlen yr adolygiad clinigol a'r elfennau ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion sy'n rhan o waith y Panel.</p> <p>Mae'n fwyfwy amlwg erbyn hyn hefyd, i'r Panel a'r Bwrdd Iechyd, mai dim ond fel rhan o broses ehangach o drawsnewid diwylliannol a sefydliadol y mae modd cyflawni'r gwelliannau sy'n angenrheidiol yn y Gwasanaethau Mamolaeth mewn modd cynaliadwy. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n gweithio ar y broses honno, a bydd yn cymryd sawl mis i ymchwilio, cynllunio a chychwyn arni.</p> <p>Rhagwelir y daw'r amserlenni posib yn gliriach erbyn diwedd mis Medi 2019 pan fydd y Panel yn cyflwyno ei adroddiad ffurfiol cyntaf i'r Gweinidog. Ond, ar hyn o bryd, dim ond amcan bras y gellir ei roi yn seiliedig ar brofiad blaenorol a barn broffesiynol.</p> <p>O ran yr elfen yn y gwaith sy'n ymwneud â gwella perfformiad, mae profiad mewn sefyllfaoedd ymyrryd y mae'r Panel yn gwybod amdanynt (er enghraifft ym Mae Morecambe a Chyngor Sir Ynys Môn) yn awgrymu y dylid, ac yn wir, bod yn rhaid cyflawni elfen 'gwneud yn ddiogel' y cynllun o fewn 3 i 6 mis o ddechrau'r broses, ac y dylai'r sefydliad fod wedi gwneud digon o gynnydd o fewn 12 mis i'r Gweinidog ddechrau ystyried camu'n ôl neu leihau'r broses ymyrryd rywfaint.</p>

	<p>Ond, eto yn seiliedig ar brofiad mewn sefyllfaoedd eraill (er enghraifft, yn achos Gwasanaeth Ambiwylans Cymru), mae'n bur debyg y cymerith hi rhwng deuddeg mis a rhyw dwy flynedd cyn y bydd rhai o'r newidiadau tymor hwy angenrheidiol, yn enwedig y rheini sy'n gofyn am newid diwylliannol neu newid arweinyddiaeth, a'r rheini sy'n ceisio ail-feithrin hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd, yn dechrau cael effaith mewn ffordd sy'n cychwyn gwreiddio'r newid a'i wneud yn gynaliadwy yn y dyfodol.</p> <p>Mae'n bur debyg hefyd y cymerith hi rhwng deuddeg mis a dwy flynedd cyn bod modd dweud yn hyderus bod digon o fomentwm, ac y byddai'n annhebygol i'r sefydliad gymryd cam yn ôl neu arafu ar ei daith tuag at wella, pe byddai'r trosolwg a'r gefnogaeth allanol yn peidio.</p> <p>Os oes angen trawsnewid sefydliadau ar raddfa eang a buddsoddi yng ngallu a chapasiti sefydliadau dros dymor hwy er mwyn iddynt gyflawni'r newidiadau hynny, mae'n realistig meddwl y bydd yn cymryd rhwng tair a phum mlynedd i sicrhau canlyniadau cynaliadwy.</p> <p>Nid yw hyn yn golygu am un munud y bydd angen i'r Panel Trosolwg Annibynnol neu, yn wir, yr ymyriadau pellach fod ar waith am y cyfnod hwnnw na'i bod yn bosib i'r ymyriad ddod i ben cyn hynny. Ond, mae'n bwysig cydnabod nad oes ateb sydyn i'r broblem, ac na fydd newid o'r math sydd ei angen yng Nghwm Taf Morgannwg yn digwydd dros nos.</p> <p>Mae'r adolygiad clinigol annibynnol sy'n rhan o waith y Panel yn dod â dimensiwn arall i'r cwestiwn ynghylch amserlenni, ac mae'n anodd cynnig amcan yn bendant ar hyn o bryd.</p> <p>Mae nifer o'r camau ym mhroses yr adolygiad clinigol yn ddibynnol ar ei gilydd, a bydd angen amserlennu'r rhain mewn trefn.</p> <p>Er enghraifft, nes bydd achosion mis Ionawr 2016 i fis Medi 2018 (y 43 achos yn adroddiad y Coleg Brenhinol) wedi cael eu hadolygu, ni fydd modd pennu cwmpas yr hyn sydd angen ei wneud o ran edrych yn ôl i 2010.</p> <p>Fel enghraifft, yn ôl yr hyn a ddeallir, mae proses adolygiad clinigol debyg a ddechreuodd yn Lloegr ddwy flynedd yn ôl yn dal heb ei chwblhau'n llwyr.</p> <p>Yn amlwg, nid yw damcaniaethu'n fuddiol mewn materion o'r natur hwn. Ond, mae'n rhaid cael rhyw fath o syniad o'r amserlenni er mwyn gallu cynllunio, ac ar y sail honno, mae'r Panel yn gweithio ar y dybiaeth gyffredinol y bydd hi'n o leiaf 12 mis cyn cyrraedd sefyllfa lle, os bydd popeth yn mynd yn dda, y byddai modd awgrymu i'r Gweinidog y gallai ystyried lleihau'r ymyriad</p>
--	--

	<p>rhywfaint.</p> <p>Er nad yw hyn yn cynnig ateb pendant i gwestiwn y Pwyllgor, gobeithio y bydd rhannu barn y Panel am beth fydd yr amserlenni posib, a'r rhesymau dros feddwl hynny, yn fuddiol.</p>
<p>Pwerau'r Panel i gael dogfennau a gwybodaeth.</p>	<p>Nid oes gan y Panel bwerau penodol i fynnu bod y Bwrdd Iechyd nac eraill yn rhoi mynediad at ddogfennau neu fath arall o wybodaeth. O'r herwydd, mae'r Panel yn dibynnu ar gydweithrediad a thrafodaeth i gyflawni'r hyn sydd ei angen, a bydd yn parhau i fod felly. Ond, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid yw hynny'n debygol o fod yn broblem.</p> <p>Yn ymarferol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithredu'n llwyr â'r Panel er mwyn iddo allu cyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gorchwyl yn briodol. Er enghraifft, mae nodiadau achos, cofnodion cleifion a mathau eraill o wybodaeth eisoes wedi bod ar gael i helpu aelodau'r Panel i edrych ar broses yr adolygiad clinigol. Yn yr un modd, mae'r Panel wedi cael mynediad at yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i greu cronfa ddata o'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt a'u dewisiadau personol o ran ffordd o gysylltu ac ymgysylltu pellach yn y broses trosolwg a gwella perfformiad.</p> <p>Ar lefel fwy strategol, mae adroddiadau mewnol a gwybodaeth am berfformiad yn cael eu rhannu â'r Panel fel mater o drefn, ac mae llif wybodaeth reolaidd ddwyffordd rhwng y Panel a'r Bwrdd ar lefel weithredol ac anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio wedi cael ei benodi'n Uwch-swyddog Cyfrifol ac mae'n gyfryngwr/datryswr problemau'r Panel. Mae uwch aelod o'r Tîm Corfforaethol yn bwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chefnogaeth o ddydd i ddydd.</p> <p>Mae'r trefniadau hyn wedi'u seilio ar BroTOCOL Trafod Gwybodaeth, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ond a fydd yn rhan o ddogfen Cwmpas, Cylch Gorchwyl a Methodoleg y Panel yn y pendraw. Bydd hyn yn gosod sut bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, trafod, storio a gwaredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â deddfwriaeth berthnasol a diogelu data ac egwyddorion.</p> <p>Os bydd materion yn codi yn ymwneud â chael mynediad at ddata ac nad oes modd eu datrys drwy drafod a chydweithredu, mae gan y Panel y gallu o fewn ei Gylch Gorchwyl i fynd yn ôl at y Gweinidog i ofyn am fwy o ddylanwad. Ond, gan fod pobl yn fodlon cydweithredu ar hyn o bryd, rhagwelir na fydd angen gwneud hynny.</p>
<p>Lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Panel er mwyn iddo allu</p>	<p>Mae pedwar aelod craidd ar y Panel, Cadeirydd sy'n cydlynu (Mick Giannasi), obstetregydd (Yr Athro Alan Cameron), bydwaig (Christine Bell) ac arbenigwr ymgysylltu (Cath Broderick).</p>

<p>cyflawni ei waith.</p>	<p>Yn ogystal â hynny, bydd unigolion penodol yn cefnogi'r Panel, yn ôl yr angen, gan gynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol mewn meysydd fel gwasanaethau cyfreithiol, cyfathrebu a gweithlu a datblygu sefydliad.</p> <p>Bydd y Panel yn cwrdd yn ffurfiol bob mis, a bydd nifer o sylwedyddion sy'n cyfranogi (e.e. cynrychiolydd y gweithlu, cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned, cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ayb) yn dod i'r cyfarfod i helpu'r Panel yn ei drafodaethau.</p> <p>O ran y gwaith o ddydd i ddydd, mae Llywodraeth Cymru wedi enwebu dau weithiwr cymorth i helpu'r Panel yn llawn amser. Mae hyn ar ben darparu aelodau eraill o staff i roi cymorth gweinyddol arferol mewn cyfarfodydd a thasgau ategol. Mae gan y ddau weithiwr cymorth amrywiaeth o sgiliau a galluoedd sy'n eu galluogi i ymgymryd â rhannau sylweddol o'r gwaith ar ran y Panel, er enghraifft, trefnu a chydlynu cyfarfodydd a digwyddiadau, rheoli dyddiaduron, drafftio dogfennau a gwneud gwaith ymchwil cefndirol.</p> <p>Yn ystod y pythefnos diwethaf, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac Uned Cyflawni'r GIG, mae'r Panel wedi cyfweld ac wedi penodi Rheolwr Busnes, yn amodol, i gynllunio, datblygu a chydlynu proses monitro ac asesu perfformiad a fydd yn sail i ddulliau adrodd ffurfiol y Panel. Y Rheolwr Busnes hefyd fydd y cysylltiad â Thîm Rheoli Rhaglen y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Mae'r unigolyn a benodwyd wedi gweithio ar lefel Cyfarwyddwr Cynorthwyol mewn sefyllfa bwrdd iechyd, ac mae gan yr unigolyn brofiad o reoli rhaglen, rheoli perfformiad, llywodraethu corfforaethol a gwella ansawdd. Mae'r penodiad hwn yn allweddol, a bydd yn galluogi'r Panel i gyflymu'r ffordd mae'n datblygu ei brosesau busnes.</p> <p>Gall yr unigolyn ddechrau ar unwaith, a gobeithio y caiff y penodiad ei gadarnhau yn y saith diwrnod nesaf.</p> <p>Rhagwelir y bydd y rheolwr busnes yn treulio 2 i 3 diwrnod yr wythnos yn gwneud gwaith Panel Trosolwg Annibynnol, gyda gweddill ei amser yn Uned Cyflawni'r GIG a fydd yn gyfrifol am ei gontract cyflogaeth.</p> <p>Mae'r trefniant hwn yn un buddiol, ac mae'r posibilrwydd o greu synergedd rhwng gwaith y Panel a'r pecyn o ymyriadau a chefnogaeth sy'n cael ei arwain yn benodol gan yr Uned Gyflawni.</p> <p>O ran yr adolygiad clinigol annibynnol sy'n rhan o waith y Panel, yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd angen recriwtio sawl tîm amlddisgyblaeth o glinigwyr (bydwagedd, obstetregwyr, anesthetyddion a phaediatregwyr yn bennaf) ar sail ad-hoc i</p>
---------------------------	--

	<p>gynnal adolygiadau unigol ar ran y Panel.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sawl tîm y bydd eu hangen na sut caiff pob un eu ffurfio ar gyfer pob achos; ni fyddwn yn gwybod dim am hynny nes bydd y gwaith o edrych ar y broses wedi'i gwblhau. Ond, gyda chefnogaeth y Colegau Brenhinol perthnasol, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi llunio rhestr o unigolion sydd â chymwysterau addas sydd wedi datgan eu bod yn fodlon bod yn rhan.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Panel yn credu fod ganddo'r adnoddau sydd ei angen arno i gyflawni ei gylch gorchwyl yn effeithiol. Ond, os bydd hynny'n newid, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y gwnaiff ystyried gwneud adnoddau ychwanegol ar gael, os oes achos busnes gyda thystiolaeth briodol dros wneud hynny.</p>
<p>Manylion cynlluniau'r Panel i ymgysylltu â chleifion, ac i ba raddau y bydd menywod a'u theuluoedd yn cael cyfle i leisio eu barn.</p>	<p>Mae'r adroddiad <i>'Listening to Women and Families about Maternity services in Cwm Taf'</i> yn cynnig argymhellion cryf am y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â menywod, teuluoedd, cleifion a chymunedau. Mae Cath Broderick wedi dechrau ar y broses helaeth o weithio gyda phobl allweddol yn y Bwrdd Iechyd a sefydliadau partner i ddeall yn well sut gellir datblygu a gwella'r gwaith a'r dulliau presennol sy'n ymwneud ag ymgysylltu a phrofiadau cleifion.</p> <p>Ffrwd Waith Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd</p> <p>Yr hyn sydd wrth galon y gwaith hwn yw Ffrwd Waith newydd Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth. Mae Cath wrthi'n cynnig cyngor, cymorth a goruchwyliaeth i'r staff sydd wedi ymroi i ddefnyddio dulliau ymgysylltu newydd ac arloesol, a'r grŵp amlddisgyblaeth. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr ym maes cyfathrebu, ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion, bydwragedd, a Chyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg. Daeth y grŵp at ei gilydd am y tro cyntaf ar 1 Gorffennaf 2019 i ddechrau'r drafodaeth am sut dylid gwella'r broses ymgysylltu â menywod a theuluoedd.</p> <p>Egwyddorion ymgysylltu</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Strategaeth Ymgysylltu gyda chymorth Cath Broderick. Bydd sawl egwyddor yn sail i'r strategaeth hon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd menywod a theuluoedd, yn enwedig y rheini yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan ddigwyddiadau sydd wedi arwain at yr adolygiad, wrth galon y gwaith sy'n cael ei wneud gan IMSOP, a byddant yn ganolog i waith y Bwrdd Iechyd i ddatblygu ymagweddau, dulliau ymgysylltu a chyfathrebu, a'u gweithredu.

- Dylai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, y ffordd mae unigolion yn gweithio, a'r strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu gael eu gweld drwy lygaid y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghwm Taf Morgannwg;
- Mae'n rhaid iddi fod mor hawdd â phosib i bobl gymryd rhan, a dylent gymryd rhan weithredol mewn ffyrdd sy'n ystyrion ac yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ennyn newid a gwelliannau;
- Rhaid i bobl gael gwybod sut mae eu cyfraniad wedi dylanwadu ar benderfyniadau ac ymarfer.

Menywod a theuluoedd wrth galon y broses ymgysylltu

Mae'r Panel wedi cwrdd sawl gwaith â menywod a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol, gan gynnwys cwrdd â'r Gweinidog, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn awyddus i fod yn rhan, gan esbonio sut hoffent gyfrannu at wella'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Bydd eu hawgrymiadau'n ganolog i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ymgysylltu. Yn benodol, maent wedi dweud eu bod yn awyddus i weld y canlynol yn digwydd -

- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gwella a newid y gwasanaethau mamolaeth (bydd Cylchlythyr IMSOP newydd i fenywod a theuluoedd yn cael ei ddisbarthu'n fuan ac rydym yn edrych i weld sut gellir defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill);
- Rhannu eu straeon a chyfrannu er mwyn i staff ddeall beth yw effaith y diffyg cyfathrebu a gofal (mae ganddynt ddiddordeb mewn datblygu fideo ac adnodd hyfforddiant mewn cyfathrebu ar gyfer staff);
- Bod yn rhan o ddigwyddiadau a gweithdai cydgynhyrchu i gynllunio gofal mamolaeth sy'n diwallu anghenion pawb (wrth cydgynhyrchu, bydd staff a theuluoedd yn dod ynghyd i ddeall profiadau ei gilydd ac yn trosi hyn i wella ansawdd gofal ac arfer da. Trefnir y digwyddiad cyntaf ddechrau mis Medi);
- Bod yn rhan o waith i wella'r ffordd mae cwynion a phryderon yn cael eu trin drwy rannu eu profiadau a'u safbwyntiau ynghylch sut mae modd newid hyn er lles menywod a theuluoedd, a datrys pryderon;
- Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i weld pa fesurau sy'n bwysig o safbwynt teuluoedd wrth geisio dangos a mesur gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth;
- Ystyried datblygu Grŵp Menywod a Theuluoedd a fydd yn nodi pa fath o ymgysylltu maent am ei weld wedyn;
- Cael cefnogaeth, ac awgrymu dulliau newydd i ymgysylltu â'r cymunedau ar draws Cwm Taf Morgannwg;
- Penderfynu drostynt hwy eu hunain a ydynt am fod yn

gynrychiolwyr ar y Grŵp Ffrwd Waith Menywod a Theuluoedd.

Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth

Grŵp amlddisgyblaeth yw'r Pwyllgor hwn, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, ac mae ganddo gyfrifoldeb dros ddod â lleisiau menywod a theuluoedd i'r Bwrdd lechyd i roi adborth am y gofal mamolaeth ac i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion defnyddwyr.

Gofynnwyd eisoes i'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol a ydynt am fod yn rhan o'r pwyllgor hwn, ac mae Cadeirydd Lleyg newydd yn cael ei benodi mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Mae Cath wrthi'n gweithio â Bydwraig Profiadau Menywod i sicrhau bod dulliau newydd yn cael eu datblygu i glywed safbwyntiau menywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau drwy dull 'Crwydro a Holi' (Walk the Patch) yn yr unedau mamolaeth.

Mae'r dulliau eraill yn cynnwys adeiladu ar y cynllun profiad mamolaeth 'Amser Real' a ddechreuwyd gan dîm PALS drwy ddatblygu cyfweiliadau pwysu a mesur ansoddol gyda menywod pan maent yn ôl yn y gymuned ar ôl geni eu plentyn.

Byddant yn estyn allan at fenywod a theuluoedd yn yr ardaloedd lle maent yn byw, drwy weithio gyda grwpiau Ti a Fi, Caffis Babis, clinigau cymunedol a digwyddiadau anffurfiol.

Ymgysylltu â chymunedau, meithrin ymddiriedaeth a hyder

Mae meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf Morgannwg yn bwysig i'r menywod a'r teuluoedd hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar hyn o bryd yn ogystal â'r rheini a fydd yn eu defnyddio yn y dyfodol. O'r herwydd, mae dulliau ymgysylltu â'r gymuned yn cael eu datblygu i sicrhau bod pob teulu'n cael cyfle i gael ei glywed mewn lleoliadau cyfarwydd, yn cael cefnogaeth i ymgysylltu, ac yn cael sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd o ganlyniad i'w hadborth.

I'r perwyl hwnnw, bydd dysgu oddi wrth sefydliadau eraill y GIG sydd wedi wynebu heriau tebyg, yn fuddiol dros ben i'r Bwrdd lechyd. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd sydd wedi wynebu heriau tebyg ac sydd wedi gweld mai dim ond 'newyddion drwg' roedd eu cymunedau wedi'i glywed am y gwasanaethau mamolaeth yn yr ardal.

Bu Cath yn gweithio gyda theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau a arweiniodd at Adolygiad Kirkup o wasanaethau mamolaeth Ymddiriedolaeth y GIG Ysbytai Prifysgol Bae Morecambe. Datblygodd ddulliau ymgysylltu a chyfathrebu ar y cyd â staff â theuluoedd, ac mae modd eu trosglwyddo i gyd-

	<p>destun Cwm Taf.</p> <p>Mae cysylltiadau wedi'u creu â chydweithwyr ym Mae Morecambe, ac fe rennir y dulliau a'r adnoddau cydgynhyrchu a gafodd eu defnyddio i sicrhau cyfranogiad menywod a theuluoedd yn y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned a newid.</p>
<p>Sicrwydd am annibyniaeth y Panel ar Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ac ar Llywodraeth Cymru</p>	<p>Mae'r Panel yn annibynnol, ac yn ei waith cynnar mae wedi mynd ati'n gyson ac yn fwriadol i ddangos bod hyn yn wir.</p> <p>Nid oes gan ddim un o'r aelodau, nac unrhyw un sy'n cefnogi'r Panel yn uniongyrchol, gysylltiad na pherthynas o gwbl â'r Bwrdd Iechyd Yn wir, nid yw tri aelod o'r Panel wedi gweithio yng Nghymru o'r blaen, a bydd ganddynt syniadau o wahanol systemau iechyd yn y DU. O'r herwydd, bydd y Panel yn wynebu'r dasg hon drwy lygaid newydd a chyda barn annibynnol.</p> <p>O fewn y Cylch Gorchwyl a roddwyd gan y Gweinidog, ac yn y cyfarfod briffio ar lafar i'r Panel yn ystod y broses gynefino, mae'r Gweinidog wedi datgan yn glir ei fod yn disgwyl i'r Panel fod yn gwbl annibynnol, ac i'w gael ei weld fel panel cwbl annibynnol, ac na ddylai ddal yn ôl rhag gwneud argymhellion sy'n ymwneud â rôl Llywodraeth Cymru yn y sefyllfa bresennol, lle y bo hynny'n briodol.</p> <p>Er bod y Panel yn cydweithio â swyddogion y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, ni ddylid ystyried bod hynny'n arwydd nad yw'n annibynnol. Gan weithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, mae'r Panel wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lunio proses y trosolwg, gan ystyried ymchwil academaidd a thystiolaeth o'r hyn sydd wedi llwyddo wrth ymyrryd yn flaenorol.</p> <p>Mae ymchwil academaidd (Jas a Skelcher, 2005) yn awgrymu y dylai arddull unrhyw ymyrraeth allanol sy'n cael ei gorfodi darfu cyn lleied ag y bo modd, sy'n angenrheidiol i sicrhau'r canlyniad dymunol.</p> <p>Mae'r un ymchwil yn awgrymu hefyd fod tri ffactor yn esbonio gallu sefydliad i'w dynnu ei hun o sefyllfa lle mae ymyriadau yn y perfformiad, sef:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • GWYBYDDIAETH (<i>h.y. cydnabyddiaeth gan y sefydliad fod angen iddo newid a derbyn bod angen help arno i wneud hynny</i>); • GALLU (<i>h.y. yr wybodaeth yn y sefydliad o'r hyn sydd angen ei wneud a'r sgil dechnegol i gyflawni hynny</i>); • CAPASITI (<i>h.y. y gallu a'r adnoddau i fynd i'r afael â'r agenda newid</i>). <p>Mae'r Panel wedi bod yn gweithio â'r Bwrdd Iechyd i asesu</p>

	<p>'gwybyddiaeth, gallu a chapasiti' y Bwrdd, ac fe wnaeth hunanasesiad yn ddiweddar yn ystod Diwrnod Datblygu'r Bwrdd.</p> <p>Ar sail canlyniadau'r ymarfer, mae'r Panel o'r farn ei bod yn briodol mabwysiadu dull cydweithredol, ond mewn sefyllfa lle mae craffu, herio a chefnogi.</p> <p>Mae'r dull gweithredu hwnnw'n cael ei gefnogi hefyd gan ymchwil academaidd sy'n awgrymu mai'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wella perfformiad yw'r ffyrdd hynny sydd gan y sefydliad sy'n wynebu'r ymyriadau... er bydd y llywodraeth yn dylanwadu (Fox 2003, Kellard et al, 2007).</p> <p>Yn yr un modd, mae'r Panel yn gweithio'n agos â'r rheoleiddwyr a chyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob elfen o'r ymyriadau'n cael eu tynnu ynghyd i greu un cyfanwaith cydlynus er bod natur annibynnol yr amrywiol elfennau'n gwbl glir.</p>
<p>Eglurhad ynghylch pwerau'r Panel i wneud argymhellion ac i fynnu eu bod yn cael eu gweithredu.</p>	<p>Mae eitemau pedwar a phump yn y Cylch Gorchwyl a roddwyd gan y Gweinidog yn datgan y dylai'r Panel wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon pellach sy'n ymwneud â llywodraethu i'r Bwrdd lechyd a Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol; • Rhoi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw gamau pellach y mae'r Panel yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu'n ddiogel, yn gynaliadwy ac i safon uchel, ac yn canolbwyntio ar y claf. Dylai hyn gynnwys cyngor am yr angen am unrhyw adolygiadau annibynnol dilynol, ac amseru'r rheini, a nodi unrhyw wersi pellach ar gyfer y GIG yng Nghymru. <p>Er nad oes gan y Panel bwerau penodol i fynnu bod ei argymhellion yn cael eu gweithredu, mae'r gallu i wneud yr argymhellion hynny'n glir. O'r herwydd, bydd y Panel yn dibynnu ar gydweithrediad a thrafodaeth i sicrhau cydymffurfiad. Ond, mae'n ddealedig, o fewn y Cylch Gorchwyl, os oes sail gref i'r argymhellion hynny, bydd Llywodraeth Cymru a, lle bo angen, y Gweinidog yn cymryd camau rhesymol i gefnogi'r dasg o'u gweithredu. Yn wir, mae'r Gweinidog wedi datgan hynny'n glir yn ei sgysiau cychwynol â'r Panel.</p> <p>Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Bwrdd lechyd yn cydweithredu'n llwyr â'r Panel i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau a'i Gylch Gorchwyl yn briodol. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd materion yn codi y bydd angen eu huwchgyfeirio. Ond, os bydd angen uwchgyfeirio, ni fydd y Panel yn dal yn ôl rhag gwneud hynny.</p>
<p>Camau sydd/fydd yn</p>	<p>Fel y nodwyd uchod, yn unol â'i gylch gorchwyl, mae'r Panel yn</p>

<p>cael eu cymryd i feithrin ymddiriedaeth staff a'r cyhoedd yn y Bwrdd Iechyd eto.</p>	<p>gweithio â'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r capasiti, y gallu, systemau, adnoddau a thechnegau a fydd yn ei alluogi i ymgysylltu'n agored ac yn dryloyw â'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan yr Adolygiad ac, yn fwy cyffredinol, â defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth yn y dyfodol. Os gwneir hyn yn y modd priodol, bydd hyn yn effeithio'n raddol ar ffydd a hyder y cyhoedd maes o law.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r Panel wrthi'n cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Iechyd am yr angen, fel rhan o Gynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, i ddatblygu trefniadau tebyg i ymgysylltu staff yn fwy effeithiol yn y gwaith o lunio a darparu gwasanaethau gwell yn y dyfodol.</p> <p>Yn ein trafodaethau cynnar â'r Bwrdd Iechyd, mae pawb yn deall er mwyn i'r newid fod yn gynaliadwy, y bydd yn rhaid gwella gwasanaethau mamolaeth yng nghyd-destun proses newid y sefydliad ar raddfa ehangach sy'n cwmpasu diwylliant, arweinyddiaeth, gweledigaeth a gwerthoedd cenhadaeth y sefydliad. Yn sgil y trafodaethau hynny hefyd, gwelwyd bod angen datblygu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu strwythuredig i newid naratif y sefydliad.</p> <p>Er mwyn i'r strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu fod yn effeithiol, rhaid i'r sefydliad a'i uwch arweinwyr ei pherchenogi a'i rhoi ar waith, er bydd y Panel a Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn herio, ac mae angen hyn i wthio'r strategaeth yn ei blaen yn ddi-oed.</p>
---	---



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Your ref/eich cyf:
Our ref/ein cyf:
Date/Dyddiad:
Tel/ffôn:
Fax/ffacs:
Email/ebost:
Dept/adran:

SH/TLT
5 July 2019
01443 744803
01443 744800
Sharon.Hopkins@wales.nhs.uk
Chair and Chief Executive

Eitem 3.1

Dr Dai Lloyd AM
Chair
Health, Social Care and Sport Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Dr Lloyd

Thank you for your letter of the 14 June 2019.

You requested some further information on a number of issues which are attached in the Annex to this letter. The information you requested on Questions 1,2 11 and the further information on the systems now in place to deal with serious incident reviews will follow, my apologies for this delay.

Please let me know if any further detail or clarification is required in respect of the information we have provided.

Yours sincerely

Dr Sharon Hopkins
Interim Chief Executive/Prif Weithredydd Dros Dro

Cyfeiriad Dychwelyd/ Return Address:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Pencadlys, Parc Navigation, Abercynon, CF45 4SN
Cwm Taf Morgannwg University Health Board, Headquarters, Navigation Park, Abercynon, CF45 4SN

Cadeirydd/Chair: Professor Marcus Longley

Prif Weithredydd/Chief Executive: Mrs Allison Williams

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg is the operational name of the Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board
ICwm Taf Morgannwg University Health Board is the operational name of the Cwm Taf Morgannwg University Local Health Board

Financial Performance

Question 1. The Health Board's written evidence notes that the funding gap for 2019-20 is £12.8 million. What measures are included in the integrated medium term plan (IMTP) to address this, and what will be the key challenges in delivering a balanced budget.

To follow

Boundary Change

Question 2. What impact will the transfer of Bridgend services have on the Health Board's financial position.

To follow

Winter Preparedness – Winter 2018/19 and plans for 2019/20

Question 3. How is the Health Board preparing for winter 2019/20, and where are the pressure points likely to be.

Winter planning is a key element of the HBs planning framework and forms part of a continuous cycle of reflection and learning following each winter period. The winter plan involves all stakeholders within the organisation and those that are key to delivering elements of the plan alongside the CTMUHB, these stakeholders include the Welsh Ambulance Services NHS Trust (WAST), Local Authority colleagues, third sector partners and our local population to name but a few.

We have already undertaken a formal review and reflection of our winter plan for 18/19 and will build on the initiatives that had a positive impact and learn lessons where initiatives were less successful. Our transformation bid (recently approved) will be a key element of the winter plan for 19/20.

At present, the Unscheduled Care Group holds the overarching responsibility for the development of the winter plan supported by our planning business partners. The winter plan is an integrated health and social care plan which is signed by all partner organisations.

A Healthier Wales/Transformation

Question 4. An update on projects in the Health Board area being funded through the Transformation Fund.

Following the successful change in the Health Board boundary in April 2019, Bridgend County Borough Council have joined together with the former Cwm Taf partners to form the Cwm Taf Morgannwg Regional Partnership Board.

In anticipation of the boundary change, the Health Board worked with partners on developing transformation proposals in the former Cwm Taf and Bridgend.

These two proposals, namely ***Stay Well in Your Community*** in the former Cwm Taf area and ***Accelerating the Pace of Integrated Services*** in Bridgend were approved by Welsh Government on 9 June, with funding totalling £22.7m.

Building on pilots already established across the Region, the transformation funding will be used to expand successful pilot projects across the Region to provide greater choice and independence for individuals, whilst reducing pressure on social care, GP surgeries and hospitals. Implementation of the two programmes is now underway, with both aiming to deliver seamless services which are provided closer to home and transform outcomes for individuals and communities.

Question 5. The Welsh Government has made clear that service transformation must become a mainstream activity for Health Boards, using their core funding to deliver change. From the Health Board's perspective, how achievable is this. Has the Health Board identified any barriers to transformation becoming a mainstream activity.

A key part of the development of the Cwm Taf Morgannwg RPB transformation plans has been the development of a financial sustainability plan. This has formed part of Welsh Government's approval of the Region's transformation proposals. The sustainability plans are predicated on three assumptions; use of new recurring funding streams in 2019/20, the level of system wide cost release which can be reinvested into the transformation models and management of new models to budget. Each of these carries its own risk, however starting with a clearly agreed plan whilst monitoring and managing the risk, means that whilst it is ambitious to mainstream activity, it is achievable. The most significant barrier is the short timescale as transformation funding is only available until December 2020, with which to evidence the large scale benefits leading to cost release elsewhere in the system. Fundamental to working in partnership, and therefore to the implementation of the transformation proposals, including mainstreaming, is the growing maturity of the partners to be brave in their decision-making. This requires mutual trust of each other as we work through important elements of risk sharing, including how we can look to allocate or transfer appropriately (according to a successful evidence base) elements of core funding.

Question 6. The Health Board's written evidence to the Committee (28 September 2018) to inform the Committee's scrutiny of the draft Budget 2019-20 stated that its spend on primary care for the last 3 years, as a proportion of total Health Board spending, had remained broadly static. How likely is it that the Health Board will be able to realise a shift in resources from secondary care and into primary care/community settings going forward.

There are a number of areas where the Health Board is looking at shifting resources from secondary to primary care. There is considerable activity in secondary care in regard to the management of Type I and Type II diabetes, and also the management and monitoring of anti-coagulation services. Both of these areas are of specific focus for the Health Board in 19/20. There has already been a considerable shift of work load on glaucoma and acute macular degeneration into primary care, whilst specific resources are not transferred, there has been associated investment in primary care as a direct result.

The Transformation Fund is designed to both improve the strength and sustainability of primary care, as well as taking a significant step in regard to management of system demand into secondary care. This will result in the reduced need for secondary care beds/reduction on bed days and in line with the transformation financial suitability plans there will be a significant transfer of resource into primary care by 21/22.

